# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
## (Chwefror – Mehefin 2022)

## Bro Ogwen.



# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy’n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i’r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy’n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **10** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ym Mro Ogwen gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda’r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o’r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i’r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i’r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy’r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.






NODWCH EICH GRŴP OEDRAN
15 OED NEU'N IAU
16 - 24 OED
25 - 34 OED
35 - 44 OED
45 - 54 OED
55 - 64 OED
65 - 74 OED
75 - 84 OED
85+ OED
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
43
93
380
581
859
890
525
144
22
146
0
200
400
600
800
1000



YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
DARLLEN CYMRAEG
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
DDIM YN DEALL CYMRAEG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
1963
1641
1577
1413
706
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
SEISNIG
ALBANAIDD
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
PRYDEINIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1880
482
21
2
844
212
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW / LESBIAN
DEURYWIOL (BISEXUAL)
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3055
47
29
53
425
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
NA
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
46
3218
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
NAC YDW
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
317
3068
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Bro Ogwen


## 3.1 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Bro Ogwen.


3.2 Derbyniwyd **280** o ymatebion i'r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Bro Ogwen.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
DARLLEN CYMRAEG
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
DDIM YN DEALL CYMRAEG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
186
155
152
133
29
27
0
50
100
150
200



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
SEISNIG
ALBANAIDD
PRYDEINIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
170
25
1
58
11
16
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / AFFRICANAIDD / CARIBIAIDD
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
260
1
2
16
2
0
50
100
150
200
250
300


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
BWDHAIDD
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
113
1
83
65
19
0
20
40
60
80
100
120


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYNES HOYW
DEURYWIOL (BISEXUAL)
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL
230
1
8
32
3
0
50
100
150
200
250


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
3
NA
250
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
22
0
50
100
150
200
250
300


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
16
NAC YDW
242
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
23
0
50
100
150
200
250
300

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Ogwen.

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Ogwen

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Bethesda | **113** |
| • Tregarth | **45** |
| • Mynydd Llandygai | **35** |
| • Gerlan | **26** |
| • Rachub | **22** |
| • Llanllechid | **15** |
| • Abergwyngregyn | **10** |
| • Arall: | **9** |
| • Talybont | **4** |
| • Llandygai | **2** |

# 5 Beth sy'n dda am Fro Ogwen?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ogwen. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ogwen i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy'n dda am Fro Ogwen?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | **234** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | **185** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | **166** |
| • Y potensial i greu ynni adnewyddol a datblygu prosiectau amgylcheddol | **121** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **117** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau lleol gwirfoddol gweithgar yr ardal | **100** |
| • Dynodiad Ardal y Llechi yn Safle Treftadaeth y Byd | **85** |
| • Darpariaeth addysg ac ysgolion da yn lleol | **83** |
| • Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **55** |
| • Mae nifer o weithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn yr ardal | **41** |
| • Mae trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn dda | **30** |

5.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Fro Ogwen sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **59** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ogwen. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (n=12); Yr amgylchedd naturiol a natur (n=8).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Llwybrau cerdded a beicio da e.e. Lôn Las Ogwen | **5** |
| • Cyfleuster ac agosrwydd at lefydd eraill | **4** |
| • Cyfleusterau hamdden a chwaraeon | **3** |
| • Cynghorwyr lleol gweithgar | **3** |
| • Lle diogel i fyw | **3** |

5.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Fro Ogwen?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ogwen. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ogwen i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd ddim mor dda am Fro Ogwen** | **Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis** |
|---|---|
| • Problemau yn ymwneud a pharcio, cyflwr y ffyrdd a thraffig | **135** |
| • Mae'r economi leol yn fregus, nid oes digon o gefnogaeth i fusnesau ac mae siopau'n cau | **128** |
| • Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **120** |
| • Mae nifer uchel o ail gartrefi a thai haf yn yr ardal | **110** |
| • Pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnydd cyffuriau ac alcohol a chanfyddiad nad yw'r heddlu'n ddigon gweledol yn yr ardal | **100** |
| • Diffyg gwaith a swyddi gwerth uchel yn yr ardal | **87** |
| • Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn annigonol | **83** |
| • Mae tlodi yn broblem yn yr ardal | **77** |
| • Pryder effaith hir dymor prisiau tai yn codi yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd | **72** |
| • Pryder nad yw atyniadau lleol yn dod a budd i'r ardal | **71** |
| • Dim digon o sylw i'r ardal gan yr Awdurdod Lleol a sefydliadau eraill | **62** |
| • Pryderon am anghenion gofal a phoblogaeth yn heneiddio | **49** |
| • Band eang / cysylltiad gwael i'r we | **40** |
| • Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal | **40** |
| • Mae gormod o fflatiau gosod yn yr ardal | **35** |
| • Cyfyngiadau rheolaethol yn effeithio ar y gallu i werthu trydan hydro | **21** |
| • Pryderon am llifogydd | **20** |
| • Mae biwrocratiaeth yn ei gwneud yn anodd i gael grantiau i fudiadau lleol | **11** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd <u>ddim mor dda</u> am Fro Ogwen sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **91** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ogwen. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem, gyda nifer yn nodi baw ci hefyd yn broblem (n=12); Problemau yn ymwneud a pharcio, cyflwr y ffyrdd a thraffig (n=11); Pryderon ynghylch y sefyllfa dai e.e. pryderon am y nifer o Air B and B, prisiau tai, prinder tai a fflatiau i'w prynu a/neu rhentu (n= 9).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cyflwr adeiladau ar Stryd Fawr Bethesda, siopau gwag a chyflwr cyffredinol y Stryd Fawr. | **7** |
| • Rhai llwybrau cyhoeddus wedi'u rhwystro, diffyg cyswllt rhwng rhwydweithiau teithio llesol, diffyg llwybrau diogel i gysylltu gwahanol lefydd e.e. rhwng Rachub a Bethesda. | **7** |
| • Diffyg darpariaeth/gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc | **6** |
| • Pryderon ynghylch yr Ysgol Uwchradd | **4** |

6.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ogwen dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ogwen. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ogwen i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ogwen dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?** | **Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis** |
|---|---|
| • Cynlluniau i ddarparu mwy o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc | **142** |
| • Cynlluniau i ddatrys problemau cyflwr ffyrdd, traffig a pharcio ar gyfer pobol leol ac ymwelwyr | **135** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **125** |
| • Gwella darpariaeth o siopau ac unedau manwerthu yn lleol | **120** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal | **109** |
| • Cynlluniau i ddatrys problemau cyffuriau yr ardal | **91** |
| • Datblygu twristiaeth gynaliadwy yn lleol er mwyn cael y budd gorau i gymunedau e.e. manteisio ar Safle Treftadaeth y Byd | **84** |
| • Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at eu gilydd | **76** |
| • Hybu gwell cyd-weithio rhwng grwpiau, mentrau cymdeithasol, cynghorau cymuned a Chyngor Gwynedd i ddatrys problemau lleol | **71** |
| • Mwy o bwysau ar sylwadau lleol i geisiadau cynllunio | **56** |
| • Mwy o gydweithio i ddatrys problemau'r ardal | **55** |
| • Rhagor o gamerâu CCTV i gadw'r gymuned yn ddiogel | **52** |
| • Cryfhau'r cydweithio efo Cyfoeth Naturiol Cymru i gael budd o goedwigaeth yr ardal | **38** |
| • Cynlluniau i'w gwneud hi'n hawdd i grwpiau lleol a chymunedol gael cefnogaeth grantiau | **34** |
| • Cynlluniau i wella a chryfhau'r cyfathrebu rhwng Cynghorau Cymuned lleol a Chyngor Gwynedd | **27** |
| • Trefniadau mewn lle i fonitro ac atal llifogydd | **21** |

| | |
|---|---|
| • Cynlluniau i ddarparu gofod swyddfa i'w llogi i'r rhai sy'n gweithio o adref | **17** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **66** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ogwen

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cynlluniau i helpu prynu tai tro cyntaf, gwella darpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal ac ati. | **9** |
| • Gwella'r rhwydwaith beicio a cherdded yn yr ardal e.e. mwy o lwybrau diogel i Lôn Las Ogwen o Llanllechid/Rachub a mwy o lwybrau diogel i osgoi ffyrdd prysur. | **7** |
| • Buddsoddi yn Stryd Fawr Bethesda. | **5** |
| • Mynd i'r afael efo Air B and B's. | **4** |
| • Gwella parcio mewn ambell i ardal. | **4** |
| • Mynd i'r afael â baw ci a sbwriel yn yr ardal. | **4** |

7.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau Bro Ogwen yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bro Ogwen.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.